TGAU

3010N10-1

DYDD MAWRTH, 11 MEHEFIN 2019 – BORE

# LLENYDDIAETH GYMRAEG

## UNED 1: Barddoniaeth

## HAEN SYLFAENOL

1 awr 15 munud a'ch amser estynedig

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

VP*(S19-3010N10-1) MLP

## DEUNYDDIAU YCHWANEGOL

**Llyfryn ateb 16 tudalen CBAC (pinc).**

## CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

**Defnyddiwch inc neu feiro du neu eich dull arferol.**

**UN CWESTIWN GORFODOL ar farddoniaeth sydd ar y papur hwn.**

**Ni chaniateir defnyddio geiriaduron.**

**Dylech dreulio 15 munud yn cynllunio eich ateb.**

## GWYBODAETH I YMGEISWYR

**Mae 40 marc am y cwestiwn hwn.**

**Bydd trefn a chywirdeb eich ysgrifennu yn cael eu hystyried yn rhan o'r asesiad.**

**1.** **Darllenwch y DDWY gerdd ganlynol yn ofalus. YN Y CERDDI, MAE'R BEIRDD YN RHOI DARLUN O FYWYD ANODD I NI.**

**CYMHARWCH y DDWY gerdd gan ddangos sut maen nhw'n DEBYG a / neu'n WAHANOL. Dylech wneud hyn drwy:**

- **ysgrifennu am gynnwys y ddwy gerdd yn eich geiriau eich hun, er enghraifft:**
  - **Pa fath o bethau sy'n anodd ym mywydau'r beirdd?**
  - **Beth sydd wedi newid erbyn diwedd y cerddi?**
  - **Meddyliwch beth yw'r neges yn y ddwy gerdd.**
- **edrych ar y ffordd mae'r beirdd wedi ysgrifennu'r cerddi gan chwilio am O LEIAF BEDAIR NODWEDD ARDDULL / MESUR a dweud pam maen nhw'n effeithiol**
- **nodi pa un o'r ddwy gerdd apeliodd fwyaf atoch chi gan roi rhesymau dros eich barn.**

**Wrth ateb, cofiwch DDYFYNNU'N BRIODOL A CHYFEIRIO AT ENGHREIFFTIAU PENODOL i gefnogi'ch sylwadau.** [40]

## GWELD Y GORWEL

**Yn rehab y colli nabod – sŵn traed**
**sy’n troi’r awr ddiddarfod,**
**sŵn y byw diflasa’n bod.**

**Yn rehab, bod yw’r rheol, – bod drwy’r dydd,**
**bod drwy’r daith hunanol**
**wna druggie’n dod o’i rigol.**

**Yn rehab o dan label, – yn nheilchion**
**ergydion ei gawdel**
**gwrid ei gariad yw gorwel.**

**Sŵn y dydd yw hi sy’n dod – o’r nosau,**
**rhanna ias cyfarfod,**
**y sŵn byw melysa’n bod.**

**Aneirin Karadog**

## PEDAIR WAL

**Pedair wal o ’nghwmpas i**
**yw fy stafell wely,**
**pedair wal o filwyr i’m cadw’n saff.**

**Ofn mynd allan,**
**ofn wynebu’r byd mawr, creulon,**
**byd y dagrau,**
**byd y geiriau cas.**

**Ofn edrych ar y sgrîn,**
**a phob neges yn gyrru’i ewinedd**
**yn ddyfnach i’r galon.**

**Pedair wal o ’nghwmpas i**
**yw fy stafell wely,**
**pedair wal o filwyr i’m cadw’n gaeth...**

**... hyd nes i mi gael**
**dy neges di,**
**llun wyneb crwn**
**a’i lond o wên.**

**Arwyn Jones**

**DIWEDD Y PAPUR**